

Cartrefi Cyngor Caerdydd

Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid 2026–2030



STRONGER
FAIRER
GREENER


Rhagair

Rwy'n falch o rannu ein Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid 2026–2030 newydd gyda chi. Rydw i am wella cyfranogiad tenantiaid. Trwy ddeall eich profiadau a'ch awgrymiadau, gall gwasanaethau tai fod yn fwy ymatebol i'ch anghenion, gan helpu i adeiladu cymunedau cryfach a hapusach. Mae pob sylw, syniad, neu bryder rydych chi'n ei rannu yn helpu i lywio'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, felly mae eich llais yn bwysig iawn!

Byddwn i wrth fy modd pe bai pawb yn cymryd rhan a dweud eu dweud, ni waeth pa mor hir rydych chi wedi byw yn eich cartref. Rydych chi'n adnabod eich cartref a'ch cymdogaeth yn well nag unrhyw un, a bydd eich syniadau'n ein helpu i wneud newidiadau cadarnhaol gyda'n gilydd.

Dim ond y dechrau yw gwrando. Rydw i am weithredu ar yr hyn sy'n bwysig i chi, boed hynny'n cwblhau gwaith atgyweirio'n gyflymach, gwneud eich cartref yn fwy diogel, rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen arnoch, neu ei gwneud hi'n haws i chi roi gwybod pan nad yw rhywbeth yn iawn. Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi rannu eich barn, fel cymryd rhan mewn panel tenantiaid neu gwblhau arolwg. Mae eich adborth yn chwarae rhan hanfodol wrth lywio a llunio gwasanaethau.

Hoffwn ddiolch o galon i bawb sydd eisoes wedi rhannu eu barn. Mae eich cyfraniadau wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio'r strategaeth newydd gyffrous hon.



Y Cyngorydd Lynda Thorne –
Aelod Cabinet, Tai a Chymunedau



Cefndir Strategol



Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, rhoddwyd ystyriaeth i bolisiau a dogfennau deddfwriaethol perthnasol sy'n llywio ein hymgyngoriad â thenantiaid.

Deddfwriaeth Allweddol

Yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, rydym yn ymgynghori â'n tenantiaid ar faterion rheoli tai ac yn rhoi cyfleoedd i iddynt wneud sylwadau ar gynigion.

Y Cyd-destun Cenedlaethol Allweddol

Mae Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023 yn nodi, er mwyn meithrin balchder a pherthyn, y dylid annog tenantiaid i fod yn rhan o unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymuned a'u hamgylchedd. Byddwn yn ymgysylltu â thenantiaid fel rhan o'r cynllun gweithredu cyffredinol ar gyfer cyflawni SATC 23. Wrth i ni weithio tuag at gydymffurfiaeth, byddwn yn ystyried anghenion a blaenoriaethau ein tenantiaid.

Mae **Safon Rhent a Thaliadau Gwasanaeth 2026 i 2036** Llywodraeth Cymru yn nodi canllawiau i landlordiaid cymdeithasol ynghylch rhent a thaliadau gwasanaeth. Disgwylir i landlordiaid cymdeithasol ymgynghori â thenantiaid ar safonau gwasanaeth, gan ddiffinio disgwyliadau'n glir a bod yn atebol am ansawdd y gwasanaeth. Bob blwyddyn rydym yn ymgynghori â thenantiaid ar newidiadau i rent a thaliadau gwasanaeth fel rhan o broses y gyllideb.

Mae **Safonau Cenedlaethol Ymgysylltu â Thenantiaid TPAS** yn nodi egwyddorion clir a chymau gweithredu y mae angen i landlordiaid cymdeithasol eu cymryd i wella'r ffordd y mae preswylwyr yn gallu cymryd rhan mewn llunio a gwella gwasanaethau yn barhaus. Rydym yn aelod balch o TPAS ac mae'r safonau hyn yn cael eu hystyried yn ofalus a'u defnyddio i lywio ein dull ymgysylltu. Mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld ar ddiwedd y Strategaeth.

Y Cyd-destun Lleol Allweddol

Uchelgais Prifddinas

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd ag amcanion strategol ehangach Cyngor Caerdydd. Mae'r polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' yn nodi agenda polisi Cyngor Caerdydd.

Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai (CRT) Caerdydd

Mae'r Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid hon yn atodiad allweddol i Gynllun Busnes CRT Cyngor Caerdydd. Gan roi tenantiaid wrth wraidd dylunio a darparu gwasanaethau, bydd y Cynllun Busnes hwn yn rhoi gwybod i'n tenantiaid am sut y byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau ac yn esbonio sut y byddwn yn defnyddio'r incwm o'r CRT i gyflawni'r nodau hyn.



Cyflwyniad

Tenantiaid sydd yn y sefyllfa orau i roi adborth ynglŷn â'u cartrefi a'r gwasanaethau a ddarparwn. Bydd strategaeth ymgysylltu â thenantiaid lwyddiannus yn un sy'n cael ei chynllunio ar y cyd â thenantiaid, yn dathlu amrywiaeth, ac yn sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi. Mae'r Strategaeth wedi'i llunio gan leisiau ein cymuned, gan gynnwys tenantiaid ac unigolion o gefndiroedd ethnig amrywiol, gan sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion pawb. Er mwyn cyfrannu at y Strategaeth, cynhaliodd y tîm Tenantiaid Ynghyd ymweliadau â chartrefi i ymgysylltu â phobl ifanc a grwpiau eraill sy'n anodd eu cyrraedd. Cynhaliwyd grwpiau ffocws mewn chwe Hyb Cymunedol ledled y ddinas. Darparodd y sesiynau le croesawgar ar gyfer trafodaethau agored, gan ganiatáu i denantiaid rannu syniadau a phrofiadau sydd wedi bwydo'n uniongyrchol i'r Strategaeth. Datgelodd yr ymgynghoriad awydd cryf ymhlith tenantiaid am ymgysylltu ystyrlon, cynhwysol a thryloyw. Mae'r adborth o'r ymgynghoriad i'w weld yn y strategaeth hon.

Rydym wedi ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad hwn ac wedi nodi gweledigaeth gyffredinol ar gyfer gwella ymgysylltiad â thenantiaid:

Ein Gweledigaeth

“Mae Cartrefi Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i wasanaeth sy'n canolbwyntio ar denantiaid lle mae pob preswilydd yn teimlo ei fod yn cael ei glywed a'i werthfawrogi, gyda ffyrdd hygyrch a chynhwysol o gymryd rhan sy'n adeiladu ymddiriedaeth ac yn gyrru gwelliant parhaus.”

Mae chwe blaenoriaeth allweddol wedi'u nodi i'n helpu i gyflawni

Blaenoriaeth Allweddol 1 - Ymgysylltu â'n tenantiaid

Blaenoriaeth Allweddol 2 – Gwrando ar ein tenantiaid

Blaenoriaeth Allweddol 3 – Gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu

Blaenoriaeth Allweddol 4 – Dathlu cyfraniadau ein tenantiaid

Blaenoriaeth Allweddol 5 – Darparu hyfforddiant, cymorth a chyfleoedd gwirfoddoli

Blaenoriaeth Allweddol 6 – Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant



**STRONGER
FAIRER
GREENER**

Tîm Tenantiaid Ynghyd

Mae ein tîm Tenantiaid Ynghyd yn gweithio drwy gydol y flwyddyn, gan ymgysylltu â thenantiaid a'u helpu i chwarae rhan weithredol wrth lunio ein gwasanaethau ac adeiladu cymunedau cryfach.

Mae'r tîm yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol sydd wedi'u cynllunio i ddod â phobl at ei gilydd, gan gynnwys boreau coffi, gweithdai addysgol a dathliadau tymhorol.

Mae grwpiau ffocws a fforymau rheolaidd yn rhoi cyfle i denantiaid rannu eu barn, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed pan gaiff penderfyniadau eu gwneud.

Maen nhw hefyd yn cydweithio â thimau a phartneriaid eraill y Cyngor mewn digwyddiadau yn ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd ledled y ddinas, gan gynnig cyngor ar dai a chyfeirio pobl at wasanaethau cymorth perthnasol.

TENANTSIAID
YNGHYD



TENANTS
TOGETHER



Ymgysylltu â'n tenantiaid

Mae annog tenantiaid i gymryd rhan a gwrando ar eu hadborth yn hanfodol ar gyfer gwella a llunio ein gwasanaethau. Mae profiadau bywyd ein tenantiaid yn cynnig cipolwg go iawn ar yr hyn sydd angen ei newid yn eu cartrefi a'u cymunedau. Rydym am greu strwythur ymgysylltu newydd, clir i denantiaid gymryd rhan er mwyn sicrhau eu bod yn cael dylanwad ystyrlon ar benderfyniadau a bod eu llais yn cael ei glywed ar bob lefel o fewn ein gwasanaeth. Gall tenantiaid benderfynu i ba raddau yr hoffent gyfrannu at y prosesau hyn ac ar ba lefel yr hoffent gymryd rhan, boed hynny'n ymuno â Llais y Tenant, creu grŵp cymunedol neu lenwi arolwg yn unig.

Cyfleoedd i ymgysylltu ar hyn o bryd

Llais y Tenant

Mae Llais y Tenant yn lle agored a chroesawgar sy'n rhoi cyfle i denantiaid ddod at ei gilydd bob tri mis gyda'u cymdogion i rannu profiadau, trafod materion lleol, a chlywed y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau newydd.

Gweithgareddau a Digwyddiadau

Mae ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau ar gael i denantiaid gymryd rhan ynddynt ac maent yn cael eu cydlynu drwy'r tîm Tenantiaid Ynghyd.

Grwpiau Cymunedol

Mae tenantiaid yn cael cyfle i ffurfio grwpiau cymunedol, fel grwpiau coffi cymunedol. Gall tenantiaid o bob rhan o'r ddinas gwrdd i sgwrsio ag wynebaw cyfarwydd a chysylltu â chymdogion newydd.

Byddwn yn:

- Datblygu Strwythur Ymgysylltu â Thenantiaid trosfwaol newydd er mwyn gwella cyfranogiad tenantiaid.
- Creu cofrestr o denantiaid sydd â diddordeb, gan alluogi pobl i gofrestru a chael eu hysbysu am faterion neu newidiadau penodol sy'n bwysig iddynt.

'Hoffwn i gael y cyfle i gynrychioli fy ardal a gwneud y strydoedd cyfagos yn lle gwyh i bobl fyw ynddo'



'Mae ymgysylltu ystyrlon yn golygu cael cyfarfodydd rheolaidd a chael pethau wedi'u hegluro mewn ffyrdd y gallaf eu deall, a gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynrychioli yn ein cymunedau'



'Dylai adran dai Cyngor Caerdydd fod yn fwy gweledol ar yr ystâd ac yn ein cymunedau. Rydyn ni eisiau cyfle i siarad â phobl leol sy'n gwneud gwaith'



Gwranddo ar ein tenantiaid

Sut rydyn ni'n gwranddo ar hyn o bryd

Grwpiau ffocws a fforymau - darparu cyfle i denantiaid drafod gwasanaethau tai a darparu adborth uniongyrchol i swyddogion.



Arolygon tenantiaid ar ystod o bynciau, sy'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â'n harolwg boddhad tenantiaid blynyddol.



Cerdded o gwmpas yr ystâd - mae staff, cynghorwyr a thrigolion yn gweithio gyda'i gilydd i nodi a datrys problemau ar yr ystâd, gan arwain at welliannau i'r gymdogaeth leol, gwasanaethau gwell, ac ymgysylltiad cymunedol cryfach.



Cymorthfeydd tenantiaid mewn Hybiau Cymunedol, sy'n cefnogi tenantiaid gydag ystod o faterion gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol.



121 o gyfweliadau - mae'r tîm Tenantiaid Ynghyd yn cwrdd â thenantiaid yn unigol i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt, neu hyd yn oed am sgwrs yn unig!



Mae brandio 'Wedi'i Gymeradwyo gan Denantiaid' newydd wedi'i greu. Mae'r marc hwn yn dangos bod tenantiaid wedi bod yn rhan weithredol o lunio'r broses neu'r penderfyniad.



'Weithiau mae'n teimlo fel eich bod chi'n cael eich targedu am gwyno, ond y cyfan rydyn ni'n ceisio ei wneud yw rhoi gwybod am broblemau i Gyngor Caerdydd. Dylen ni gael ein canmol am geisio helpu'



Gwranddo ar ein tenantiaid

Byddwn yn:

- Cefnogi tenantiaid i gynnal profion “siopwr cudd”, gan brofi gwasanaethau tai ac adrodd yn ôl i ddweud a ydynt yn diwallu eu hanghenion.
- Datblygu Panel Adolygu i Denantiaid, gan ddod â grŵp o denantiaid at ei gilydd i adolygu agweddau ar ein gwasanaeth tai, a helpu i nodi meysydd i'w gwella.
- Cyflwyno Tîm Rhagoriaeth Cwsmeriaid a Gwella newydd, dan arweiniad Rheolwr Rhagoriaeth Cwsmeriaid Tai, i ganolbwyntio ar wella gwasanaethau, ystyried arfer gorau a gwella safonau, gan roi tenantiaid yn gyntaf bob amser.
- Datblygu dull ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid ar ein proses gwyno fel y gallwn ddysgu o'r pryderon sy'n cael eu codi.



Gwella sut rydym yn cyfathrebu

Mae sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n dda â thenantiaid yn allweddol. Rydyn ni am barhau i wella'r ffordd rydym yn rhoi gwybod i'n tenantiaid am newidiadau a datblygiadau a allai effeithio arnynt. Mae bod yn agored ac yn dryloyw yn hollbwysig i ennill ymddiriedaeth ein tenantiaid.

Sut rydyn ni'n cyfathrebu ar hyn o bryd

Taflenni a phosteri



Gwefan Tenantiaid Ynghyd



Cylchlythyrau



Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw



Tenants' Times



'Hoffwn i weld y cyngor yn bod yn onest ac yn dryloyw. Dyw'r cyfathrebu ddim yn ymddangos yn ddilys iawn weithiau'

'Hoffwn i gael mwy o sesiynau galw heibio yn y gymuned, mwy o sgysiau ar-lein ac efallai fforwm ar-lein? Lle gallwn bostio a sgwrsio â thenantiaid eraill heb gael ein cyfyngu i amser neu ddyddiad penodol'



**STRONGER
FAIRER
GREENER**

Gwella sut rydym yn cyfathrebu



Mae mwy y gallwn ei wneud i sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid.

Byddwn yn:

- Datblygu cylchlythyr chwarterol newydd yn llawn – gan ymateb i adborth gan ein tenantiaid yn yr adrannau 'dwedoch chi, gwnaethon ni.'
- Ystyried cynyddu nifer y sesiynau galw heibio cymunedol.
- Parhau i wella a datblygu gwefan Tenantiaid Ynghyd. Datblygu gweminarau rhyngweithiol ar-lein a fforwm ar-lein.
- Creu tudalennau cyfryngau cymdeithasol newydd ar gyfer ardaloedd lleol, gan gynnig newyddion, diweddariadau ar ddigwyddiadau, dolenni i adnoddau Cartrefi Cyngor Caerdydd, a straeon calonogol.
- Datblygu fideo animeiddiedig newydd i hyrwyddo tîm Tenantiaid Ynghyd a sut y gall tenantiaid gymryd rhan.



Dathlu cyfraniadau ein tenantiaid



Mae tîm Tenantiaid Ynghyd yn trefnu gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn fel cystadlaethau garddio, tripiâu undydd a gweithdai creadigol, gyda'r nod o ddathlu'r cyfraniadau hanfodol y mae tenantiaid yn eu gwneud i gymunedau. Bob blwyddyn mae ein tenantiaid yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth Garddio Gwych, gan drawsnewid mannau gwyrdd cyffredin yn arddangosfeydd hardd gyda lliw a phersonoliaeth.



Er mwyn cydnabod ymhellach y cyfraniadau cadarnhaol y mae tenantiaid yn eu gwneud i'n cymunedau, rydym yn bwriadu ehangu ein dathliadau.

Byddwn yn:

- Datblygu seremoni wobrwyo flynyddol sy'n cynnwys gwobr 'Yr Awgrym Adborth Gorau', wedi'i chynllunio i gydnabod tenantiaid y mae eu syniadau wedi arwain at newidiadau go iawn i'n gwasanaethau tai.
- Creu adran 'Cyfraniadau Tenantiaid' bwrpasol yn y cylchlythyr chwarterol, lle gall preswylwyr rannu eu straeon, cerddi, gwaith celf, ffotograffau, neu gyngor ar fyw yn y gymuned, gan dynnu sylw at fentrau dan arweiniad tenantiaid .



Darparu hyfforddiant, cymorth a chyfleoedd gwirfoddoli



Hyfforddiant a Chymorth Rydym yn darparu hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi tenantiaid i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu yn effeithiol. Gall hyn rymuso tenantiaid i wneud cyfraniadau ystyrlon at drafodaethau am eu tai. Trwy hyfforddiant cefnogol, anogaeth gan gymheiriaid ac atgyfnerthu cadarnhaol, rydym yn helpu tenantiaid i gydnabod gwerth eu profiadau bywyd a'r arbenigedd maen nhw'n ei gynnig. Rydyn ni am ddarparu rhywbeth i bawb, gan wneud dysgu yn hygyrch ac yn ddiddorol.

Mae **gwirfoddoli** yn ffordd wych o roi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned wrth ddysgu sgiliau newydd, magu hyder a chael cefnogaeth. Gall tenantiaid gymryd rhan gyda'r Tîm Gwirfoddoli Cymunedol mewn sawl ffordd, o roi help llawn mewn clybiau garddio a boreau coffi yn yr Hybiau Cymunedol, i helpu gyda gwasanaethau llyfrgell neu gefnogi gofalmwyr di-dâl fel cyfeillwyr.



**STRONGER
FAIRER
GREENER**

Darparu hyfforddiant, cymorth a chyfleoedd gwirfoddoli



Byddwn yn:

- Grymuso ein tenantiaid trwy sicrhau bod ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddi sydd wir yn adlewyrchu eu diddordebau a'u hanghenion.
- Cynyddu argaeledd hyfforddiant a'r amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael i denantiaid.
- Ar ôl cwblhau rhaglenni hyfforddi yn llwyddiannus, rhoi tystysgrifau a mathau eraill o gydnabyddiaeth i denantiaid, gan ddathlu eu cyflawniadau ac annog cyfranogiad pellach. Cefnogi'r tenantiaid hynny sy'n dymuno gwirfoddoli, gan eu helpu i ddysgu pethau newydd, rhoi hwb i'w hyder, a gwella eu hiechyd a'u lles ,



Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i gysylltu â thenantiaid mewn ffyrdd sy'n gweddu orau i'w hanghenion unigol, gan sicrhau bod pawb yn gallu ymgysylltu'n effeithiol, chwalu unrhyw rwystrau i ymgysylltu, a rhoi cyfle i bawb leisio eu barn. Mae amrywiaeth o opsiynau ar gael i denantiaid rannu eu barn a chymryd rhan, gan gynnwys gwefan gyda darllenydd testun a fideos sy'n cynnwys isdeitlau. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth hon ar gael i'n denantiaid lle bynnag y bo angen. Mae ein holl ddogfennaeth yn ddwyieithog. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai tenantiaid yn hoffi mynychu digwyddiadau yn y

Byddwn yn:

- Gwella'r opsiynau ar-lein hygyrch sydd ar gael trwy sicrhau bod gan bawb sydd ei eisiau fynediad at ddyfeisiau digidol.
- Parhau i weithio'n agos gyda Hybiau Cymunedol a chael presenoldeb yn y gwahanol grwpiau maen nhw'n eu hwyluso.
- Darparu cludiant i denantiaid i ddigwyddiadau lle bo angen.



Mae ein Hybiau Cymunedol yn cynnig mannau cynhwysol lle gall tenantiaid o bob cefndir gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys digwyddiadau sy'n cefnogi'r cymunedau LHDTCRhA+, Cymraeg ac ethnig amrywiol.

Mae grŵp ethnig amrywiol newydd yn dod â thenantiaid o wahanol gefndiroedd at ei gilydd i feithrin cynhwysiant a rhannu syniadau. Mae Diwrnodau Cyswllt Cymunedol yn cynnwys cyfieithwyr er mwyn chwalu rhwystrau iaith. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi gwahanol grefyddau, gan alluogi pobl i ddatlu achlysuron pwysig gydag eraill sy'n rhannu eu diwylliant, tra hefyd yn annog cymunedau i ddysgu oddi wrth ei gilydd.



Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant

Byddwn yn:

- Targedu sesiynau ymgysylltu mewn lleoliadau sydd â nifer uwch o denantiaid o gefndir ethnig amrywiol.
- Sicrhau bod ein taflenni a'n posteri ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill fel bod pob tenant yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael.



Annog pobl ifanc i gymryd rhan

Rydyn ni am i denantiaid iau deimlo'n rhan a theimlo eu bod yn cael eu clywed. Mae eu lleisiau yr un mor bwysig â lleisiau tenantiaid hŷn. Mae'r tîm Tenantiaid Ynghyd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth i Mewn i Waith i'n helpu ni i estyn llaw i denantiaid iau'r cyngor a chael eu barn ar y gwasanaethau tai rydym yn eu cynnig. Rydym hefyd yn ymgysylltu â'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn ein sesiynau hyfforddiant tenantiaeth i denantiaid ifanc newydd, er mwyn cael gwybod pa wobrau neu fuddion fyddai'n eu hannog i gymryd mwy o ran.



Byddwn yn:

Gweithio ar y cyd â'r Gwasanaethau Ieuenctid i hybu ymgysylltiad ieuenctid trwy ddatblygu fforwm ar-lein i denantiaid ifanc gymryd rhan.



Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant

Cefnogi tenantiaid hŷn

Mae'r tîm Tenantiaid Ynghyd yn cymryd rhan mewn sesiynau ymgysylltu a boreau coffi yn ein Cynlluniau Byw yn y Gymuned i bobl hŷn, ochr yn ochr â'r Tîm Cyswllt Lles sy'n cynnig cymorth i breswylwyr hŷn sydd â phroblemau ariannol. Yn ystod y digwyddiadau hyn, gall tenantiaid rannu adborth ar sut y gallwn wella gwasanaethau iddyn nhw drwy ateb ein "cwestiwn y mis" neu drwy gofrestru ar gyfer y panel Byw yn y Gymuned newydd.

'Hoffwn i weld digwyddiadau gyda phobl eraill dros 50 oed, fel dosbarthiadau coginio a gweithdai iechyd efallai.'



Byddwn yn:

- Datblygu ein panel Byw yn y Gymuned ymhellach ac yn archwilio ffyrdd eraill i denantiaid hŷn gymryd rhan.



Sut y gallwch chi gymryd rhan

Rydym yn cynnig amrywiaeth o ffyrdd i denantiaid rannu eu barn a dweud eu dweud.

Ewch i'n tudalen Tenantiaid Ynghyd ar Facebook neu wefan Tai Caerdydd i ddysgu mwy.



[Tenantiaid Ynghyd \(Cyfranogiad Tenantiaid gynt\) - Tai Caerdydd](https://www.facebook.com/CardiffTenantsTogether)

www.facebook.com/CardiffTenantsTogether

Cysylltwch â ni drwy e-bost



Tenantiaid.Ynghyd@caerdydd.gov.uk

Cysylltwch â ni dros y ffôn:



02920 871777



Monitro'r strategaeth hon

Bydd cynllun gweithredu, a fydd yn tanategu ein blaenoriaethau a'n camau gweithredu “byddwn yn”, yn cael ei ddatblygu i gyd-fynd â'r strategaeth hon. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro'n agos a'i ddiweddarau i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion tenantiaid ac yn addasu i flaenoriaethau sy'n newid.

Sut olwg sydd ar ymgysylltiad da â thenantiaid?

Bydd cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu datblygu i fesur llwyddiant y strategaeth ac effeithiolrwydd ymgysylltiad â thenantiaid. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Nifer y cyfleoedd ymgysylltu a gynigir a faint o bobl sy'n cymryd rhan yn y rhain, gan gynnwys manylion am y bobl dan sylw.
- Nifer y tenantiaid sy'n mynychu gweithgareddau a digwyddiadau sy'n hyrwyddo ymgysylltiad.
- Nifer y tenantiaid sy'n cwblhau'r arolwg tenantiaid blynyddol.
- Nifer y tenantiaid sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi wedi'u hyrwyddo gan y tîm Tenantiaid Ynghyd.
- Canran tenantiaid y Cyngor sy'n fodlon â'r gweithgareddau ymgysylltu y cymeron nhw ran ynddynt.



Bydd dangosyddion pellach yn cael eu datblygu wrth i'r strategaeth gael ei chyflawni.



**STRONGER
FAIRER
GREENER**

Ymateb i Safonau Cenedlaethol Ymgysylltu â Thenantiaid

Safonau TPAS	Sut mae Caerdydd yn cyflawni hyn
Strategaeth Ymgysylltu Sicrhau bod eich ymgysylltiad â thenantiaid yn cysylltu'n uniongyrchol ag amcanion y cynllun busnes.	Mae'r Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid 2026-2030 newydd yn mynd law yn llaw â Chynllun Busnes CRT 2026/27. Un o brif amcanion y cynllun busnes yw gwella ymgysylltiad â thenantiaid, gan gydnabod bod cydweithredu o'r fath yn rhan hanfodol o wella gwasanaethau. Y nod yw grymuso tenantiaid i gymryd rhan weithredol mewn llywio penderfyniadau a gyrru newid cadarnhaol mewn partneriaeth â ni fel eu landlord
Adnoddau ar gyfer Ymgysylltu Rhaid i'ch ymgysylltiad gael adnoddau digonol i sicrhau ei fod yn effeithiol wrth gyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd	Mae'r tîm Tenantiaid Ynghyd, dan arweiniad Uwch Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid, yn cael ei ariannu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai ac yn ymgysylltu â thenantiaid drwy gydol y flwyddyn i lunio gwasanaethau a chryfhau Cymunedau.
Gwybodaeth a Mewnwelediad Darparu mynediad at wybodaeth ar y lefel gywir, ar yr adeg gywir, i'r bobl gywir yn y ffordd gywir.	Darperir ystod o wybodaeth i denantiaid drwy nifer o wahanol sianeli gan gynnwys: Taflenni a phosteri Gwefan Tenantiaid Ynghyd Cylchlythyrau Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai Tenants' Times – cylchgrawn i denantiaid

Safonau TPAS	Sut mae Caerdydd yn cyflawni hyn
Dylanwad a Chraffu Sicrhau bod tenantiaid, lesddeiliaid a chymunedau yn gallu dylanwadu yn briodol.	Mae stamp ‘Cymeradwywyd gan Denantiaid’ newydd ar gyfathrebiadau nawr yn dangos bod tenantiaid wedi bod yn rhan weithredol o'r broses neu'r penderfyniad. Gwahoddir tenantiaid i gofrestru eu diddordebau, gan ganiatáu i ni gysylltu â nhw ynghylch meysydd sydd o ddiddordeb penodol iddynt.
Gwerthfawrogi Ymgysylltiad Sicrhau y bydd canlyniadau eich ymgysylltiad â thenantiaid o fudd i denantiaid, lesddeiliaid, sefydliadau sy’n rhanddeiliaid, a chymunedau	Bob blwyddyn mae tenantiaid yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth Garddio Gwych, gan drawsnewid mannau gwyrdd cyffredin yn arddangosfeydd hardd gyda lliw a phersonoliaeth. Mae'r creadigaethau hyn yn dod â chymunedau at ei gilydd ac yn bywiogi mannau a rennir. Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu seremoni wobrwyo flynyddol i gydnabod tenantiaid rhagorol a'r rhai y mae eu hadborth wedi arwain at welliannau ystyrlon.
Ymgysylltu â’r Gymuned Ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol i ddatblygu prosiectau a chynlluniau i ddiwallu anghenion a nodwyd ar y cyd.	Mae Llais y Tenant yn rhoi cyfle i denantiaid ddod at ei gilydd bob tri mis gyda'u cymdogion i rannu profiadau, trafod materion lleol, a chlywed y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau newydd. Mae ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau ar gael i denantiaid gymryd rhan ynddynt ac maent yn cael eu cydlynu drwy'r tîm Tenantiaid Ynghyd. Mae tenantiaid yn cael cyfle i ffurfio grwpiau cymunedol, fel grwpiau coffi. Mae grwpiau ffocws a fforymau yn rhoi cyfle i denantiaid drafod gwasanaethau tai a rhoi adborth i swyddogion yn uniongyrchol. Mae nifer o arolygon ar ystod o bynciau yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â'r arolwg boddhad tenantiaid blynyddol. Mae staff, cyngorwyr a thrigolion yn gweithio gyda'i gilydd i nodi a datrys problemau ar yr ystâd, gan arwain at waith atgyweirio, gwasanaethau gwell, ac ymgysylltiad cymunedol cryfach. Mae cymorthfeydd tenantiaid mewn Hybiau Cymunedol yn cefnogi tenantiaid gydag ystod o faterion gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gellir cefnogi tenantiaid i gwblhau arolygon yn y sesiynau hyn. Mae'r Tîm Tenantiaid Ynghyd yn cwrdd â thenantiaid yn unigol i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.